



Sian Gwenllian AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Ionawr 2021

Annwyl Sian,

Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Diolch ichi am gysylltu yn ddiweddar ynghylch Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn sgil argymhelliad y Pwyllgor Pobl Ifanc, Plant ac Addysg y dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod statudol ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg o dan y cwricwlwm.

Gofynnoch imi hwyluso ystyriaeth yr Aelodau perthnasol o'r Senedd o'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) drwy rannu fy safbwynt ynghylch yr angen i'r Bil gynnwys darpariaeth ar gyfer Cod statudol ar addysgu'r Gymraeg. Gan fod argymhelliad y Pwyllgor yn nodi y dylwn fel Comisiynydd weithio'n agos â'r Llywodraeth yn hyn o beth rwy'n rhannu'r papur hwn yn ogystal â'r Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn ogystal â chadeirydd y Pwyllgor Pobl Ifanc, Plant ac Addysg.

Hyderaf y bydd y papur hwn yn cyfrannu'n adeiladol at y drafodaeth ac yn dangos yr angen am god statudol ar gyfer addysgu'r Gymraeg.

Yr eiddoch yn gywir,

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at:

Lynne Neagle AS, Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, SeneddPPIA@senedd.cymru
Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg, Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg,
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Suzy Davies AS, Suzy.Davies@senedd.cymru

- 1. Cyflwyniad: Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) a'r angen am god statudol ar gyfer addysgu'r Gymraeg**
- 1.1.** Hoffwn gychwyn drwy nodi fy mod yn cefnogi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg yn y sector addysg, a'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni o ran y Gymraeg wrth gyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru. Er hynny, rwyf yn pryderu nad yw'r cwricwlwm fel y mae yn debygol o arwain at y math o gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cael ei ragweld gan y Llywodraeth.
- 1.2.** Nid oes dim wedi newid yn fy safbwynt bod angen cod statudol sy'n darparu arweiniad llawer cryfach o safbwynt continwwm y Gymraeg. Mae ymateb y Gweinidog i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cydnabod y bwriad ac yn derbyn yn rhannol argymhelliad y pwyllgor ynglyn â chreu cod ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Er hyn mae ymateb y Gweinidog yn awgrymu bod 'fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru' eisoes yn cynnwys digon o fanylder a chyfarwyddyd o safbwynt addysgu'r Gymraeg. Rwyf yn anghytuno â hyn, ac nid wyf o'r farn bod fframwaith cyffredinol y cwricwlwm am symblu'r newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni un o dargedau allweddol Cymraeg 2050, sef y bydd 50% o ddisgyblion y sector cyfrwng Saesneg yn gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rwyf yn pryderu bod y cwricwlwm newydd i bob pwrpas yn ailadrodd methiannau'r gorffennol ac yn parhau â'r drefn bresennol o gael dau lwybr addysgu'r Gymraeg i ddisgyblion Cymru, a hynny o dan len cysyniad y continwwm ieithyddol. Canlyniad hyn yw y bydd Llywodraeth Cymru yn methu ar gyfle euraid i sicrhau na fydd cenedlaethau yn rhagor o ddisgyblion Cymru yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac yn methu â chyflawni ei Strategaeth ei hun ar gyfer y Gymraeg.
- 1.3.** Byddai cod yn:
 - gosod fframwaith deddfwriaethol er mwyn codi disgwyliadau a safonau yn raddol, a hynny er mwyn gweithio tuag at dargedau hirdymor Cymraeg 2050;
 - adlewyrchu'r addewid polisi i 'ddiddymu Cymraeg ail iaith'
 - cynrychioli ymrwymiad i ddatblygu'r cysyniad o gontinwwm y Gymraeg yn llawn
 - ffordd effeithiol o gefnogi penaethiaid ac ysgolion i weithio dros gyfnod o amser i ddatblygu cwricwlwm sy'n diwallu'r weledigaeth genedlaethol o ran yr iaith Gymraeg
 - rhoi sicrwydd i'r sector addysg drwyddi draw ynghylch disgwyliadau yn y maes hwn
 - sicrhau bod penaethiaid ac ysgolion yn deall hyd a lled gweledigaeth y Llywodraeth ac yn paratoi ar gyfer symud i'r cyfeiriad hwn.
- 1.4.** Isod rwyf yn ymhelaethu ar ddiffygion y cwricwlwm newydd o safbwynt diddymu Cymraeg ail-iaith a chyflwyno un continwwm ieithyddol, ac yna yn egluro pam a sut y byddai cod statudol yn mynd i'r afael â'r diffygion hyn. Dylwn bwysleisio bod y dadleuon isod yn ailadrodd yr hyn sydd eisoes wedi'i gyhoeddi yn ein hymatebion blaenorol i ymgynghoriadau dros y tair blynedd diwethaf.



2. Diffygion y cwricwlwm newydd o ran diddymu Cymraeg ail-iaith a chyflwyno un continwmm ar gyfer addysgu'r Gymraeg

Y cyd-destun: gweledigaeth a thargedau strategaeth iaith y Llywodraeth

2.1. Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn gosod her anferthol yng nghyd-destun cyfraniad y sector cyfrwng Saesneg i'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r taflwybr i'r miliwn o siaradwyr yn rhannol seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion fydd yn gadael y sector addysg cyfrwng Saesneg yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Erbyn 2050 targed Llywodraeth Cymru yw y bydd 50% o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg yn gadael yr ysgol yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r strategaeth yn datgan yr angen i 'gynyddu'n sylweddol nifer y dysgwyr yn y sector addysg statudol sy'n datblygu sgiliau Cymraeg, a sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu sgiliau yn y Gymraeg i safon a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau pob dydd.' (t.37) Mae hyn yn golygu gweddnewid y sefyllfa bresennol, lle mai ychydig iawn o ddisgyblion y sector cyfrwng Saesneg sy'n datblygu hyder a sgiliau digonol i ddefnyddio'r Gymraeg wedi iddynt adael yr ysgol.

2.2. Er y bydd cyflawni'r weledigaeth uchod yn gofyn am ystod o ymyraethau gwahanol ar draws meysydd polisi addysg statudol, does dim amheuaeth am rôl gwbl ganolog y cwricwlwm. Mae strategaethau a dogfennau polisi'r Llywodraeth i gyd yn pwysleisio rôl allweddol y cwricwlwm newydd fel y prif sbardun ar gyfer symbylu'r newidiadau i'r ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu yn ysgolion Cymru. Er enghraifft, mae strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi:

Mae cyfraniad pwysig i'w wneud gan y sector cyfrwng Saesneg i'n nod o ddatblygu siaradwyr Cymraeg. Er mwyn cyrraedd miliwn o siaradwyr, mae angen i ni **weddnewid sut rydym yn addysgu Cymraeg i ddysgwyr yn yr ysgolion hynny**, er mwyn i o leiaf hanner y dysgwyr hynny allu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol. Rydym yn bwriadu datblygu un continwmm ar gyfer addysgu'r Gymraeg, gan bwysleisio dysgu Cymraeg yn bennaf fel modd o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu ar lafar. **Bydd yn ofynnol i bob ysgol yng Nghymru gyflwyno'r continwmm iaith i'r holl ddysgwyr a gwreiddio'r holl broses o gaffael sgiliau yn y Gymraeg ar draws y cwricwlwm dros amser.** (ein pwyslais ni)

2.3. Mae'r Memorandwm Esboniadol (pwynt 3.137, t.37) a gyhoeddwyd law yn llaw a Bil y Cwricwlwm yn datgan bod 'gweddnewid y ffordd rydym yn addysgu'r Gymraeg i bob dysgwr, er mwyn i o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny allu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol, yn un o'r prif newidiadau gweddnewidiol y bydd eu hangen yn y sector addysg statudol'. Mae asesiad effaith integredig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil hefyd yn datgan y bydd y disgrifiadau dysgu ar gyfer y Gymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg yn cael 'eu hadolygu o bryd i'w gilydd gyda'r bwriad yn y tymor hir o gael gwared ar y 'sgaffaldio' hwn a chael pob ysgol yn defnyddio'r un disgrifiadau dysgu ar gyfer y Gymraeg er mwyn gwireddu uchelgais 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.' (t.14)

Y bwllch rhwng y weledigaeth a'r gweithredu

2.4. Er bod yr amcanion a'r penawdau polisi yn gadarnhaol, nid ydym o'r farn bod gwaith arwyddocaol, ymarferol na phenodol wedi'i gyhoeddi sy'n cyfateb i'r addewidion a'r amcanion polisi uchod. Er bod rhywfaint o fanylder wedi'i gyhoeddi yng nghanllawiau'r cwricwlwm ar gyfer

y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, nid ydym o'r farn bod hyn yn ddigonol i symbylu'r trawsnewidiad sy'n cael ei ragweld yn strategaethau a thargedau'r Llywodraeth nac yn rhoi arweiniad digonol i ysgolion.

- 2.5.** Mae'r canllawiau sy'n bodoli yn gosod disgwyliadau gwahanol ar ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Gymraeg o'u cymharu â disgyblion mewn ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg. Er gwaethaf y drafodaeth am 'gontinwwm ieithyddol' a'r ymrwymiad i 'ddiddymu Cymraeg ail-iaith', ymddengys y bydd y system newydd yn parhau i osod disgwyliadau gwahanol yn seiliedig ar gyfrwng iaith ysgolion (sef y sefyllfa bresennol). Hynny yw, yn hytrach na chael dau gwricwlwm neu raglen addysgu sy'n gosod disgwyliadau gwahanol yn seiliedig ar gyfrwng iaith ysgolion, bydd un cwricwlwm a chontinwwm yn cael ei ddatblygu, ond bydd hwnnw hefyd yn gosod disgwyliadau gwahanol yn seiliedig ar gyfrwng iaith ysgolion. Mae'n hanfodol bod y syniad o ddiddymu Cymraeg ail-iaith a chyflwyno continwwm ieithyddol yn mynd y tu hwnt i newidiadau mewn terminoleg ac agweddau arwynebol addysgu'r Gymraeg.
- 2.6.** Rwyf yn derbyn bod y sefyllfa uchod yn anochel i ryw raddau yn y tymor byr. Y pwynt allweddol yw mai amcan polisi'r Llywodraeth yw y bydd y cwricwlwm newydd a'r continwwm ieithyddol yn blatfform ar gyfer symbylu diwygiadau mwy graddol, sylweddol a hirdymor i'r ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae angen datblygu'r cysyniad continwwm ieithyddol fel canolbwynt y broses o gynllunio sut bydd trefniadau addysgu'r Gymraeg yn cael eu trawsnewid dros gyfnod hwy. Hynny yw, dylai'r continwwm alluogi a hwyluso proses o symud o sefyllfa anochel dau gwricwlwm y Gymraeg ar hyn o bryd, i sefyllfa lle gellir gwireddu'r weledigaeth bod pob disgybl yn dilyn yr un cwricwlwm. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r continwwm arwain y gwaith o wella sgiliau ieithyddol disgyblion a sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn symud yn gyflymach, yn uwch, ac ymhellach ar hyd continwwm y Gymraeg.
- 2.7.** Er hyn, nid oes unrhyw fanylder wedi'i gyhoeddi ynglŷn â'r agweddau sylfaenol hyn o'r cysyniad continwwm ieithyddol. Nid oes unrhyw drafodaeth ynglŷn â beth a sut fydd trefniadau a disgwyliadau o ran addysgu'r Gymraeg yn newid yn raddol mwyn cael 'gwared ar y sgaffaldio' ac er mwyn gwireddu'r bwriad hirdymor o gael 'pob ysgol yn defnyddio'r un disgrifiadau dysgu ar gyfer y Gymraeg'. Oni bai am ddisgrifiadau dysgu lefel uchel sydd wedi'u cynnwys yng nghanllaw'r cwricwlwm, nid oes manylder am y disgwyliadau fydd yn cael eu gosod ar ysgolion mewn categorïau ieithyddol gwahanol. Nid oes manylder na chyfarwyddyd ynglŷn â sut a lle mae'r disgwyliadau a'r deilliannau cyflawni hyn yn eistedd ar gontinwwm iaith Gymraeg, nac ychwaith am sut yn union bydd y disgwyliadau hyn yn cael eu diwygio er mwyn 'cynyddu'r her yn raddol'. Nid oes unrhyw arweiniad na chefnogaeth i ysgolion o ran y newidiadau sylfaenol y bydd eu hangen er mwyn gallu codi safonau a symud disgyblion ar hyd continwwm ieithyddol. Nid oes chwaith unrhyw fanylder ac eglurhad am sut y bwriedir cyflwyno'r fath newidiadau yn raddol, nac ychwaith sut mae'r Llywodraeth am sicrhau bod ysgolion yn gweithredu yn unol â'r weledigaeth. Nid yw canllawiau'r cwricwlwm na'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn cynnig dim arweiniad na manylder ynglŷn â'r materion cwbl allweddol hyn.
- 2.8.** Yng ngoleuni'r diffyg cyfarwyddyd a manylder am y materion hyn, mae'n anodd gweld sut gellir honni bod y cwricwlwm newydd yn 'diddymu Cymraeg ail-iaith' ac yn cyflwyno un continwwm ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Byddai hyn yn arbennig o wir pe bai'r broses o lunio cymwysterau newydd ar gyfer y cwricwlwm yn cynnig parhau â'r sefyllfa bresennol o gael dau gymhwyster Cymraeg gwahanol ar gyfer disgyblion Cymru, a dim cynllun na fframwaith hirdymor ar gyfer

newid hyn a symud yn raddol at un cymhwyster Cymraeg i bob disgybl yng Nghymru. Yn absenoldeb gwaith sylweddol ar gysyniad y continwwm Cymraeg, rwy'n ofni y bydd llwyddiant y cwricwlwm newydd o ran y Gymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar ddisgresiwn ac ewyllys ysgolion eu hunain, a hefyd ar strategaethau addysg awdurdodau lleol. Nid yw gweithredu fel hyn wedi gweithio yng Nghymru yn y gorffennol. Heb ymrwymiad i ymgymryd â gwaith pellach ar ffurf cod neu ganllaw statudol addysgu'r Gymraeg, rwy'n pryderu y byddwn ymhen deg i bymtheg mlynedd yn wynebu sefyllfa debyg iawn i'r un sy'n bodoli heddiw, lle bydd cyfran sylweddol o ddisgyblion Cymru yn parhau i gael eu hamddifadu o'r cyfle i fod yn ddwyieithog.

3. Sut y byddai cod addysgu'r Gymraeg yn ychwanegu gwerth ac yn rhagori ar yr hyn sydd wedi'i gynnwys eisoes yn MDAPh leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Pam fod angen cod?

- 3.1.** Mae'r newidiadau sylweddol a phellgyrhaeddol sydd eu hangen er mwyn gwireddu amcanion polisi'r Llywodraeth o safbwynt y Gymraeg yn cyfiawnhau'r angen am god addysgu'r Gymraeg. Yng nghyd-destun gweledigaeth a thargedau'r Llywodraeth mae'n gwbl resymol dadlau bod problem systemig o ran dysgu'r Gymraeg yng nghyfundrefn addysg statudol Cymru. Mae graddfa'r newid sydd angen digwydd dros y 30 mlynedd nesaf yn teilyngu gwaith sylweddol a phenodol ychwanegol. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael am fethiannau'r cwricwlwm presennol yn y cyd-destun hwn.
- 3.2.** Mae'r Gymraeg wedi bod yn bwnc statudol yng Nghwricwlwm Cymru yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 ers 1990, ac yng Nghyfnod Allweddol 4 ers 1999. Er hyn mae amryw o adroddiadau wedi casglu mai i raddau prin y mae dilyn cwrs Cymraeg ail iaith yn llwybr effeithiol ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg hyderus. Roedd adolygiad yr Athro Sioned Davies yn nodi ei bod yn 'unfed awr ar ddeg ar Gymraeg ail iaith' yn ôl yn 2013, a hynny oherwydd mai niferoedd bach iawn o'r disgyblion sy'n astudio Cymraeg ail iaith sy'n datblygu sgiliau digonol yn y Gymraeg i ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae casgliadau Adroddiad Blynyddol 2017-18 Estyn yn nodi mai 'dim ond mewn rhyw chwarter o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg y mae disgyblion yn parhau i ddatblygu'u medrau Cymraeg' ac yng ngweddill yr ysgolion nad yw 'disgyblion yn datblygu medrau siarad Cymraeg yn ddigon da. ...ac nid yw'r hyder ganddynt i geisio siarad Cymraeg.'
- 3.3.** Mae dystiolaeth y cyfrifiad yn 2011 i bob golwg yn cefnogi casgliadau'r arbenigwyr hyn. Er bod y Gymraeg wedi bod yn bwnc statudol ar draws pob cyfnod allweddol yng Nghymru er 1999, ac felly bod y mwyafrif helaeth o unigolion yn y categori 16-24 oed wedi derbyn cwricwlwm lle mae'r Gymraeg yn elfen orfodol, dim ond 22% ohonynt oedd yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg (ffigwr sydd yn agos at ganran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg). Y realiti ar hyn o bryd yw bod tua 80% o ddisgyblion Cymru yn dilyn cwricwlwm a threfniadau addysgu'r Gymraeg nad yw yn ei hanfod yn arwain at greu siaradwyr Cymraeg hyderus.
- 3.4.** Wrth gwrs, yng nghyd-destun cymdeithasol ac ieithyddol Cymru, nid mater hawdd yw addysgu iaith i ddisgyblion lle nad yw'r iaith honno yn cael ei siarad gartref, lle nad yw'r unigolion yn debygol o glywed yr iaith yn aml yn eu bywydau cymdeithasol, a hithau'n cystadlu ag iaith ryngwladol sydd drechaf yn niwylliant poblogaidd byd-eang. Wrth gwrs, y cyd-destun

cymdeithasol ac ieithyddol yma sy'n egluro pam fod addysg drochi yn dull effeithiol o greu disgyblion syn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg yn ogystal a'r Saesneg.

- 3.5.** Mae'r holl resymau uchod yn amlygu pam mae angen cefnogaeth arbennig ar y Gymraeg er mwyn gwireddu'r weledigaeth y bydd cynnydd sylweddol yn nifer disgyblion Cymru fydd yn gadael y gyfundrefn addysg statudol yn siaradwyr Cymraeg a Saesneg hyderus. Nid yw'n faes chwarae gwastad yng nghyswllt y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru, ac mae gwahaniaethau amlwg yn sefyllfa'r ddwy iaith sy'n cyfiawnhau triniaeth wahaniaethol o safbwynt polisi a deddfwriaeth. Nid yw hyn gyfystyr â ffafrio neu flaenoriaethu'r Gymraeg ar draul y Saesneg, ond yn hytrach fod angen cefnogaeth ddwysach ar y Gymraeg er mwyn sicrhau cydraddoldeb llawn ac effeithiol o safbwynt canlyniadau. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am weld y math o gynnydd a ragwelir yn strategaeth Cymraeg 2050 o safbwynt y sector cyfrwng Saesneg, yna mae'r dystiolaeth yn profi'n ddiamedd y bod angen gwneud llawer mwy na gwneud y Gymraeg yn bwnc gorfodol yn unig.
- 3.6.** Dylid nodi bod y Bil eisoes yn cynnig cyfarwyddyd pellach ar gyfer dwy o elfennau mandadol eraill y cwricwlwm, sef Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a Chrefydd Gwerthoedd a Moeseg. Yn achos Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mae eisoes ymrwymiad i gyhoeddi cod ychwanegol fyddai'n mynd i'r afael â materion penodol mewn mwy o fanylder nag sy'n bosib neu'n addas ar wyneb y Bil. Yn achos yr elfennau mandadol hyn, mae'r Llywodraeth yn derbyn bod ffactorau penodol yn golygu bod dull o ddirprwyo cyfrifoldeb llwyr i ysgolion ac awdurdodau lleol, heb gyfarwyddyd pellach, yn annhebygol o sicrhau'r canlyniadau addysgol a ddymunir. Byddem yn dadlau bod hyn yn wir yn achos y Gymraeg yn ogystal, ac felly bod achos a chynsail clir dros gyflwyno cod addysgu'r Gymraeg.

Beth fyddai pwrpas a chynnwys cod addysgu'r Gymraeg?

- 3.7.** Byddai cod addysgu'r Gymraeg yn gallu mynd i'r afael â'r manylder rydym yn dadlau sydd ar goll yng nghanllawiau'r cwricwlwm ac ym Mil y Cwricwlwm. Byddai cod yn cynnwys rhagor o gyfarwyddyd a manylder er mwyn sicrhau bod trefniadau addysgu'r Gymraeg ar draws ysgolion Cymru yn arwain at godi safonau Cymraeg disgyblion yn unol ag amcanion y cwricwlwm a strategaeth Gymraeg y Llywodraeth. Rwyf yn derbyn efallai nad yw'r math o fanylder y byddai angen ei gynnwys yn addas ar gyfer prif ganllawiau'r cwricwlwm, ac felly mae'r syniad o greu cod atodol yn ddeniadol. Byddai cod o'r fath yn gallu datblygu fframwaith mwy hirdymor fyddai'n bodoli ochr yn ochr â dogfennaeth bresennol y cwricwlwm.
- 3.8.** Ni fyddai angen i'r cod hwn fod yn ei le erbyn diwedd cyfnod y Llywodraeth hon a byddai'r cyfnod cyn y daw'r cwricwlwm i rym yn caniatáu amser i ddatblygu a mireinio cynnwys y cod. Yr unig beth y mae angen ei newid ar hyn o byd yw gosod dyletswydd ar Weinidogion i gyflwyno cod o'r fath fel rhan o Fil y Cwricwlwm. Byddai'n ddefnyddiol dod ag arbenigwyr ynghyd i'w ddatblygu, a hynny o bosib ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer y Gymraeg, yn ogystal â'r gwaith o ddiwygio categorïau ieithyddol ysgolion.
- 3.9.** Fel man cychwyn, awgrymwn y dylai'r cod gynnig arweiniad a chyfarwyddyd pellach ar y materion allweddol canlynol:

- i. **Datblygu continwwm iaith Gymraeg:** dylai'r cod ddatblygu un continwwm (neu fatrics) ar gyfer mesur, disgrifio ac asesu sgiliau Cymraeg disgyblion. Dylai'r continwwm hwn fod yn llawer manylach a mwy soffistigedig na'r disgrifiadau dysgu sydd yng nghanllaw'r cwricwlwm, a gellid defnyddio fframweithiau sydd eisoes yn bodoli (er enghraifft CEFR a fframwaith cwricwlwm Cymraeg i oedolion) fel pwynt cychwyn.
- ii. **Yn seiliedig ar y continwwm, gosod disgwyliadau a deilliannau cyflawni eglur a manwl ar gyfer ysgolion mewn categorïau ieithyddol gwahanol:** Ar hyn o bryd mae gan benaethiaid a chyrrff llywodraethu ddisgresiwn llwyr o ran sut y byddant yn addysgu'r Gymraeg a pha ddeilliannau a champau cynnydd sydd fwyaf perthnasol i'w dysgwyr. Mae angen gosod mewn cod y disgwyliadau gwahanol fydd ar ysgolion gwahanol, a hefyd ar ddisgyblion o oedran gwahanol, a hynny mewn perthynas â'r camau cynnydd a'r deilliannau cyflawni mwyaf addas. Dylid cysylltu'r gwaith hwn â'r broses o lunio cymwysterau newydd ar gyfer y Gymraeg.
- iii. **Gosod y disgwyliadau gwahaniaethol ar un fframwaith continwwm iaith Gymraeg gan nodi pryd ac ar ba gyflymder y disgwylir y bydd y disgwyliadau hyn yn cael eu diwygio:** Mae angen mecanwaith deddfwriaethol er mwyn cynnig eglurder ynglŷn â graddfa ddisgwyliedig y cynnydd, a fframwaith sy'n mapio'r broses o weithio tuag at dargedau Cymraeg 2050. Hynny yw, mae angen manylu am sut a pha bryd bydd y 'sgaffaldau' sy'n cefnogi dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn cael eu haddasu a'u hadolygu gyda'r bwriad hirdymor o gau'n sylweddol y bwlch rhwng disgyblion ysgolion cyfrwng Saesneg a disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg. Hyderwn mai'r weledigaeth hir dymor yw bod cyfran gynyddol o ddisgyblion Cymru, ni waeth beth fyddai cyfrwng ieithyddol eu hysgol, yn cyrraedd haenau uchaf y continwwm. Mae'n bosib y byddai'n ddymunol gosod disgwyliad y byddai'r cod felly yn cael ei adolygu yn rheolaidd bob 3-5 mlynedd er mwyn hwyluso'r broses hwn. Unwaith eto, dylid cysylltu'r gwaith hwn â chynigion o ran cymwysterau'r Gymraeg, gan nodi sut bydd cymwysterau'r Gymraeg yn addasu i'r broses o godi disgwyliadau yn raddol.
- iv. **Canllawiau a chefnogaeth i ysgolion ddatblygu cwricwlwm y Gymraeg:** dylid darparu arweiniad i benaethiaid ynghylch cynnwys a natur cwricwlwm sy'n debygol o fodloni'r disgwyliadau sydd wedi'u gosod ar ysgolion gwahanol o safbwynt y Gymraeg. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau ymarferol o sut byddai addysgu'r Gymraeg yn amrywio o un lleoliad i'r llall, a sut dylai ysgolion wella eu darpariaeth dros amser. Dylai'r gefnogaeth hon ganolbwyntio yn benodol ar sut dylai penaethiaid a chyrrff llywodraethu gynllunio yn y tymor hwy ar gyfer cynyddu capasiti'r ysgol i gefnogi datblygiad Cymraeg eu disgyblion.
- v. **Canllawiau a chefnogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm:** mae angen cyfarwyddyd pellach o safbwynt sut ac i ba raddau y dylid cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'r cwricwlwm, yn ogystal ag mewn gweithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Byddai hyn yn gyson â gweledigaeth Strategaeth 2050 uchod.

4. Sylwadau i gloi

Rwyf yn derbyn yn llwyr na all y cwricwlwm ynddo'i hun gyflawni'r her sydd wedi'i gosod yng nghyd-destun strategaeth Cymraeg 2050 y Llywodraeth. Bydd gwireddu'r weledigaeth i sicrhau darpariaeth addysg statudol sydd wirioneddol yn cynnig cyfle i bob disgybl ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus yn gofyn am ymyraethau polisi ar draws y gyfundrefn addysg statudol. Mae hyn yn arbennig o wir ym maes hyfforddi a datblygu proffesiynol athrawon. Mae hefyd wrth gwrs yn dibynnu ar ymroddiad ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, ynghyd â nifer o randdeiliaid eraill allweddol. Ond rwyf yn argyhoeddedig y bydd y datblygiadau allweddol hyn yn fwy tebygol o ddwyn ffrwyth os bydd y cwricwlwm yn gosod cyfeiriad a chyfarwyddyd diamwys i'r sector addysg statudol. Mae'n gwbl amlwg i mi mai cwricwlwm cenedlaethol Cymru yw'r cerbyd ar gyfer gyrru'r holl broses yn ei flaen. Os bydd y cwricwlwm yn gosod disgwyliadau clir a phendant, bydd gweddill y gyfundrefn addysg yn dilyn ac yn ymaddasu. Oni fydd y cwricwlwm yn arwain ar hyn, y tebygolrwydd yw y bydd diffygion o safbwynt sgiliau athrawon, o ran capasiti ysgolion, o ran cymwysterau ac adnoddau, yn arwain at gylch diddiwedd fydd yn parhau i lesteirio gwelliant yn sgiliau Cymraeg disgyblion Cymru.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner